# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED

# DYDD IAU, 28 MEDI 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
N. Lewis D. Thomas

**Sylwedydd (Yn rhithwir):**
Mr. J. Jones, Cadeirydd Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddR. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
A. Brown, Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 3.00 yp – 5.11**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd R. James yn ystod y cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 26 MEHEFIN 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 18 EBRILL 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar 18 Ebrill 2023 yn cael eu derbyn.**

## 5. RHAGARCHWILIAD O DDATGANIAD CYFRIFON 2022-23

Cafodd y Pwyllgor Datganiad o Gyfrifon Cyn-archwilio Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-23 a oedd yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa ariannol, perfformiad a hyblygrwydd ariannol y Gronfa am y cyfnod adrodd.

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor ar y pwyntiau amlycaf yn yr adroddiad, a oedd yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2023 a'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Pwyllgor fod disgwyl i Archwilio Cymru orffen ei archwiliad erbyn diwedd Hydref 2023, ac yn dilyn hynny byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol, eglurwyd i'r Aelodau fod y ffigwr yn cynrychioli'r swm arian a dalwyd i mewn i'r Gronfa lle mae'r aelodau wedi defnyddio elfen o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i brynu buddion pensiwn ychwanegol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Datganiad Cyfrifon Cyn-archwilio Cronfa Bensiwn Dyfed 2022/23.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2023 - 30 MEHEFIN 2023

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2023/24. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 30 Mehefin 2023, yn danwariant o gymharu â'r gyllideb o £0.9m.

O ran gwariant, rhagwelid tanwariant o £1.3m ar Bensiynau Taladwy o achos yr amrywiant rhwng y cynnydd a amcangyfrifwyd a'r cynnydd gwirioneddol mewn aelodaeth pensiynwyr hyd yn hyn. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y gallai'r ffigwr hwn amrywio yn ystod y flwyddyn.

Roedd effaith net y cyfraniadau a'r incwm buddsoddi £0.4m islaw'r gyllideb. I'r perwyl hwn, eglurwyd roeddid yn rhagweld byddai cyfraniadau £1.9m dros y gyllideb o ganlyniad i aelodau pensiynadwy ar y gyflogres, a gan fod yr incwm buddsoddi £2.3m islaw'r gyllideb roedd hynny'n gwneud iawn amdano.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gwariant cyffredinol oedd £121.5m ac mai cyfanswm yr incwm oedd £122.4m, gan arwain i sefyllfa llif arian gadarnhaol o £0.9m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Mehefin 2023.**

## 7. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 30 MEHEFIN 2023

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Nodwyd ar 30 Mehefin, 2023 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £7.8m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 8. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP a llif gwaith.

Cyfeiriwyd at ddiweddariad McCloud/Sargeant lle nodwyd bod cynnydd da'n cael ei wneud o ran cysoni a dilysu data a bod datrys ymholiadau hefyd wedi cychwyn. Mewn ymateb i'r Pwyllgor, cadarnhawyd bod y rheoliadau wedi cael eu cyflwyno ers cyhoeddi'r adroddiad, a bod cyflenwr y meddalwedd yn dal i wneud gwaith i adlewyrchu'r newidiadau yn y system bensiynau, ac a fyddai'n nodi'r gofynion ymyrraeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 9. ADRODDIAD TORRI AMODAU

Cafodd y Pwyllgor yr Adroddiad Torri Amodau i'w ystyried mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed a baratowyd yn unol ag Adran 70 Deddf Pensiwn 2004, Côd Ymarfer rhif 14 a Pholisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y rhestr o achosion o dorri rheolau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd yn manylu ar yr achosion lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwyr wedi dod i law mewn pryd. I'r perwyl hwn, cyfeiriodd Rheolwr y Trysorlys a Phensiynau at achos o dorri amodau a adroddwyd mewn perthynas â Chyflogwr a oedd wedi methu'n rheolaidd dalu'r cyfraniadau gofynnol i'r Gronfa. Mewn diweddariad i'r Pwyllgor, cadarnhaodd yr adroddiad fod y Rheoleiddiwr Pensiynau hefyd wedi cael gwybod fod y Cyflogwr wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ac amcangyfrifwyd mai'r cyfraniadau oedd yn ddyledus i'r Gronfa hyd yn hyn oedd 7,230.56. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod trafodaethau'n parhau rhwng y Gronfa a'r gweinyddwyr ynghylch y cyfraniadau oedd yn ddyledus.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 10. COFRESTRE RISG

Cafodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg, a oedd yn manylu ar yr holl risgiau gweithredol a strategol a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed, i'w hystyried.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y gofrestr risg wedi'i hadolygu ac nad oedd unrhyw newidiadau i risgiau unigol wedi'u nodi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFYRDOL i nodi adroddiad y gofrestr risg.**

## 11. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU:

Bod y Pwyllgor yn cael i'w hystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru fel a ganlyn:

### 11.1. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Rhoddodd adroddiad Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru grynodeb o'r eitemau a ystyriwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch buddsoddi cyfrifol yng nghyd-destun risgiau newid hinsawdd, cadarnhaodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod hwn wedi bod yn faes blaenoriaeth i Gronfa Bensiwn Dyfed ers blynyddoedd lawer a bod momentwm wedi cyflymu ar draws Awdurdodau Cyfansawdd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Canmolwyd yr Awdurdod gan y Pwyllgor am ei ymagwedd ragweithiol at fuddsoddi cyfrifol a monitro risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd. Awgrymwyd bod swyddogion yn edrych ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a hyrwyddo ymhellach ymdrechion yr Awdurdod yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn diweddariad Partneriaeth Pensiwn Cymru ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.**

### 11.2. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN Y GWEITHREDWR

Adolygodd y Pwyllgor adroddiad y gweithredwr a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r Is-gronfeydd ynghyd â Diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu, gan gynnwys y protocol ymgysylltu.

Wrth ystyried yr is-gronfa ecwiti, dywedwyd wrth y Pwyllgor, mewn ymateb i ymholiad, fod Cronfa Bensiwn Dyfed wedi dewis peidio â buddsoddi yn *UK Opportunities* ar sail y wybodaeth oedd ar gael adeg lansio'r is-gronfa ecwiti yn 2018-19, ac yn unol â dyhead risg Cronfa Bensiwn Dyfed. Yn ogystal, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fod digon o sylw'n cael ei roi i Gronfa Bensiwn Dyfed drwy'r portffolio *Passive.*

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariad gan Weithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 12. CYNLLUN HYFFORDDI 2023-2024

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad i'w ystyried ynghylch y Cynllun Hyfforddi ar gyfer y cyfnod 2023-2024 a oedd yn manylu ar amserlen cyfarfodydd y pwyllgor, a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau a swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed.

Cyfeiriwyd at Gynhadledd Flynyddol LAPFF a oedd i'w chynnal yn Bournemouth 6 – 8 Rhagfyr 2023. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd, pe bai llefydd ar gael, fyddai'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn mynychu gyda'r Cyng. N. Lewis i gynrychioli Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2023-24.**

## 13. ADOLYGIAD O'R DYRANIAD ASEDAU STRATEGOL 2023

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2023 (gweler cofnod rhif 13), rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a gyflwynai ganfyddiadau dyrannu asedau strategol portffolio buddsoddi Cronfa Bensiwn Dyfed. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Dabl 1 yr adroddiad a oedd yn cynnig pum portffolio amgen i'r Pwyllgor Pensiynau i optimeiddio risg ac elw yn unol ag amcanion a gofynion y Gronfa. Yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i Ddadansoddiad Optimeiddio Portffolio yr adolygiad, ynghyd ag opsiynau ac ystyriaethau'r Portffolio, **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL FOD:**

**Opsiwn 1A (newid dyraniad 5% o Ecwiti i Gredyd Preifat) yn cael ei fabwysiadu am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 14. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 15. MEINI PRAWF GWERTHUSO - PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU CAFFAEL GWEITHREDWR

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Adolygodd y Pwyllgor y meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau o ran proses gaffael gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru a oedd ar waith eisoes. Nodwyd bod y Gwahoddiad i Dendro i fod i gael ei roi ganol mis Hydref 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r meini prawf gwerthuso a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer caffael Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 16. ADOLYGIAD O BERFFORMIAD BENTHYCA GWARANNAU NORTHERN TRUST 2022-23

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Cafodd y Pwyllgor i'w ystyried adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau Northern Trust ar gyfer 2022-23, a nodai wybodaeth oedd yn ymwneud â throsolwg o'r rhaglen, tueddiadau'r farchnad ac arsylwadau, dadansoddi perfformiad a dadansoddi cyfochrog.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adolygiad Perfformiad Benthyca Gwarannau Northern Trust 2022-23.**

## 17. ADRODDIAD YMGYSYLLTU ROBECO 1 IONAWR 2023 - 31 MAWRTH 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ymgysylltu Robeco ynghylch y cyfnod 1 Ionawr 2023 – 31 Mawrth 2023 i'w ystyried.  Roedd yr adroddiad yn rhoi ystadegau manwl mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ar bortffolio'r Bartneriaeth yn ystod y chwarter, a detholiad o astudiaethau achos o'r gweithgareddau ymgysylltu wnaed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Ymgysylltu Robeco am y cyfnod 1 Ionawr 2023 - 31 Mawrth 2023.**

## 18. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 30 MEHEFIN 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 30 Mehefin 2023. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**18.1 nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 30 Mehefin;**

**18.2 bod £30m pellach (1.0%) o ail-gydbwysedd yn cael ei ymrwymo i'r Gronfa Credyd Byd-eang, i'w gyllido gan bortffolio marchnadoedd newydd goddefol, a hynny oherwydd y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 19. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 30 MEHEFIN 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2023, a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau cyn i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 30 Mehefin 2023.**

## 20. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 30 MEHEFIN 2023

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 14 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau'r rheolwr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 30 2023.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 30 Mehefin 2023;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch2 2023;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch2 2023;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2023;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 30 Mehefin 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

________________________ ____________________
**CHAIR** **DATE**